# Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Paratoir y nodyn hwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn dilyn penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes ar 27 Mawrth 2020 a 3 Ebrill 2020 ynghylch **proses dros dro o ymdrin ag offerynnau statudol** a osodwyd gerbron y Cynulliad.

## Crynodeb

Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”).

Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud darpariaeth i orfodi, yng Nghymru, ddarpariaethau penodol o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr. Mae gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am alergenau bwyd ac yn caniatáu ar gyfer cyflwyno mesurau cenedlaethol ynghylch sut y bydd gwybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer bwyd sydd wedi’i ragbecynnu i'w werthu'n uniongyrchol.

Gan ddechrau 1 Hydref 2021, mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn darparu bod rhaid i Weithredwyr Busnes Bwyd sicrhau bod bwydydd sydd wedi eu rhagbecynnu i’w gwerthu’n uniongyrchol, pa un a ydynt yn cael eu cyflenwi i ddefnyddiwr terfynol neu i arlwywr mawr, gael rhestr cynhwysion, yn cynnwys gwybodaeth am alergenau, wedi ei darparu’n uniongyrchol ar y pecyn neu ar label sydd ynghlwm wrth y pecyn.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Pwyntiau Pellach i'w Nodi

Nodir y pwynt a ganlyn mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

1. **Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd**

Bydd Rheoliadau diwygiedig 2014 yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

**Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**14 Ebrill 2020**